

Disgrifiad Swydd – Rheolwr Datblygu Underhill

Ein Rheolwr Datblygu:

Bydd gan ein Rheolwr Datblygu yn Underhill amrywiaeth eang o gyfrifoldebau, a fydd yn newid dros amser, o ddatblygu'r gwasanaeth i reoli gweithrediad dyddiol y cyfleusterau newydd. Er y bydd angen sgiliau amrywiol ar gyfer hyn, credwn mai'r gofyniad pwysicaf yw eu bod yn berson cyfeillgar, ac yn rhywun a fydd i'w weld allan o gwmpas y parc ac yn y gymuned.

Rydym yn rhagweld y bydd yr unigolyn a gaiff ei benodi yn dod yn rhan ganolog o'n cymuned, ac yn meithrin perthynas â chlybiau a sefydliadau lleol, ysgolion a busnesau, yn ogystal â'n gwirfoddolwyr a defnyddwyr y parc.

Bydd angen i'n Rheolwr Datblygu fod yn drefnus, yn hawdd siarad â nhw ac yn llawn syniadau, rhaid iddynt gael llygad am fanylion gweithredol, a bod yn brofiadol mewn perthynas â rheoli pobl, a rhaid iddynt gael sgiliau cyfathrebu rhagorol. Byddant yn gweithio gyda'r Ymddiriedolwyr ac yn arwain tîm bach o staff a gwirfoddolwyr, a bydd disgwyl iddynt dorchi eu llewys a gwneud beth bynnag sydd ei angen i sicrhau gweithrediad llyfn ac effeithlon Underhill.

Pan fydd y gwaith ar Gam 1 wedi'i gwblhau, bydd y datblygiad yn cwmpasu caeau chwaraeon glaswellt, saith ystafell newid a chyfleusterau ategol, yn ogystal â chaffi/ystafell gweithgareddau cymunedol newydd, ystafell gyfarfod a chyfleusterau toiledau cyhoeddus. Ac mae cyllid yn cael ei geisio ar hyn o bryd ar gyfer cae chwarae pob tywydd newydd.

Er y rhagwelir y bydd yn rôl amser llawn i un unigolyn, gallai weddu i ddau unigolyn sy'n gweithio'n rhan amser.

Disgwyliadau'r rôl:

Rydym yn gobeithio penodi'r Rheolwr Datblygu i ymuno â ni yn gynnar ym mis Ionawr 2023, cyn y bydd Cymdeithas Gymunedol y Mwmbwls yn cymryd y cyfrifoldeb dros reoli Parc Underhill. Byddant felly'n chwarae rôl allweddol mewn cwblhau'r gwaith o sefydlu Ewch Underhill, cyn iddo gael ei agor yn llawn.

Ionawr – Ebrill 2023

I ddechrau, bydd y Rheolwr Datblygu'n canolbwyntio ar sicrhau bod gennym bob dim yn ei le i'n galluogi i agor - o asesiadau risg, i systemau rheoli, i ddatblygu rhaglen o weithgareddau, trefnu ein tîm o wirfoddolwyr a sicrhau bod gennym yr holl systemau a'r cytundebau angenrheidiol. Ond nid yw hyn yn golygu dechrau o'r dechrau oherwydd mae llawer o'r gwaith eisoes wedi'i wneud ac yn parhau i gael ei wneud gan Ymddiriedolwyr y Gymdeithas Gymunedol, a fydd yn parhau i gymryd rhan a darparu cefnogaeth, felly byddwch yn gallu manteisio ar eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad.

O fis Ebrill 2023

Unwaith y bydd wedi'i agor yn llawn, bydd y rôl yn datblygu i reoli'r bobl a'r cytundebau allanol sydd ynghlwm ag Underhill, datblygiad parhaus y gwaith a'r gweithgareddau, mynd allan i'r parc a'r gymuned, cynnal perthynas dda â chymdogion a defnyddwyr ein parc, sicrhau ein bod yn gwrando arnynt, a bod problemau'n cael eu datrys a chyfleoedd yn cael eu rhoi ar waith. Byddwch yn adrodd yn ôl i Grŵp Rheoli'r Parc, a fydd yn cynnwys defnyddwyr, cynrychiolwyr y clybiau chwaraeon ac Ymddiriedolwyr y Gymdeithas Gymunedol, a byddwch yn sicrhau ein bod yn bodloni disgwyliadau ein defnyddwyr, ein cyllidwyr a'r gymuned ehangach ac yn rhagori arnynt.

Teitl y Swydd: Rheolwr Datblygu Underhill

Hyd y swydd: Cytundeb 2 flynedd i ddechrau

Oriau gweithio: 35 awr
Bydd yr oriau'n cael eu gweithio mewn modd hyblyg, a bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau ar sail gofynion y gwasanaeth.

Yn atebol i: Pwyllgor Rheoli Parc Underhill

Lleoliad: Parc Underhill, y Mwmbwls, Abertawe

Cyflog: £25,000 - £28,000 y flwyddyn, gan ddibynnu ar brofiad
Cyfraniad pensiwn o + 3%

Rolau a Chyfrifoldebau**Prif Ddiben:**

Datblygu a rheoli'r Hyb a'r cyfleusterau chwaraeon ym Mharc Underhill, gan weithio gyda Phwyllgor Rheoli'r Parc a Chymdeithas Gymunedol y Mwmbwls i ddatblygu sefydliad bywiog a llwyddiannus sy'n manteisio i'r eithaf ar botensial y cyfleusterau ac yn cyflawni'r ymrwymïadau a wnaed i'r prif gyrff cyllid grant.

Cyfrifoldebau Penodol:

Gan fod hwn yn rôl newydd mewn sefydliad newydd, gallai'r cyfrifoldebau a ganlyn a ragwelir ddatblygu, a bydd disgwyl i'r unigolyn a benodir ymgymryd ag unrhyw dasgau eraill sy'n dod i'r amlwg wrth i'r rôl a'r sefydliad ddatblygu.

- Rheoli gweithrediad Parc a Hyb Underhill o ddydd i ddydd, a sicrhau eu bod yn rhedeg yn effeithlon a llyfn er mwyn darparu profiad rhagorol i'r holl ddefnyddwyr a'r ymwelwyr i'r parc.
- Datblygu a goruchwylio'r rhaglen o weithgareddau sy'n cael ei chynnal yn y parc a'r Hyb, sy'n cynyddu'r incwm a gynhyrchir i'r eithaf wrth sicrhau ei bod yn cyflawni'r ymrwymïadau a roddwyd i'r Loteri Genedlaethol o ran y cyfleoedd a'r ymgysylltiad ac ateb anghenion y gymuned.
- Datblygu a chynnal cysylltiadau rhagorol â'r clybiau chwaraeon sydd eisoes yn defnyddio'r parc.
- Datblygu perthynas â grwpiau o ddefnyddwyr newydd posibl gan gynnwys ysgolion, grwpiau diddordeb a hobiau, darparwyr gwasanaethau iechyd, a threfnwyr gweithgareddau sydd â diddordeb mewn llogi'r cyfleusterau.
- Gweithio gyda Rheolwr y Caffi ac Ymddiriedolwyr y Gymdeithas Gymunedol, datblygu'r gwaith marchnata a chysylltiadau cyhoeddus ar gyfer y parc a'r Hyb a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfathrebu'n rheolaidd drwy'r wefan, y sianelau cyfryngau cymdeithasol a'r cylchlythyr rheolaidd.
- Goruchwylio gwaith Rheolwr y Caffi, gan gyflawni eu cyfrifoldebau i gyflenwi pan fydd gwyliau neu absenoldebau eraill.
- Ymgymryd â rôl 'Rheolwr y Safle' ar gyfer Hyb Underhill
- Datblygu ymhellach a rheoli tîm o wirfoddolwyr a datblygu'r cyfleoedd gwirfoddoli yn Underhill
- Sicrhau bod yr holl ofynion iechyd a diogelwch a'r gofynion statudol eraill yn cael eu bodloni

- Sicrhau bod gan unrhyw un sy'n gweithio, yn gwirfoddoli, neu'n darparu gwasanaethau ar y safle yr hyfforddiant neu'r cymwysterau angenrheidiol ar gyfer y gwaith y maent yn ei wneud.
- Sicrhau bod y cyfleusterau'n cael eu cadw'n lân ac mewn cyflwr da, gan fynd i'r afael ag unrhyw broblemau y mae angen eu datrys a chyfleu unrhyw broblemau mawr i Bwyllgor Rheoli'r Parc.
- Rheoli a monitro'r gyllideb ar gyfer y sefydliad.
- Paratoi adroddiadau chwarterol ffurfiol ar lefelau'r gweithgareddau a'r mathau ohonynt, nifer y defnyddwyr, bodlonrwydd y defnyddwyr, cyfleoedd i wirfoddoli a gweithgareddau'r gwirfoddolwyr, gyda chyfeiriad penodol at y rheini o dan 25 oed ym mhob achos.
- Darparu syniadau a mewnbwn ar gyfer cynllun Datblygu Busnes Parc Underhill, y mae'r Ymddiriedolwyr yn ei oruchwylio a'i gymeradwyo.
- Sicrhau bod ymrwymiad y Gymdeithas Gymunedol i gyfleoedd cyfartal i bawb a'r defnydd o'r Gymraeg yn cael ei gyflawni.

Profiad, Sgiliau a Chymwysterau

Profiad o:

- Reoli cyfleusterau cyhoeddus aml-ddefnydd, gyda phrofiad mewn amgylchedd chwaraeon yn ddymunol ond nid yn hanfodol.
- Datblygu a chynnal perthynas â phartneriaid, grwpiau cymunedol, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.
- Rheoli pobl, gan gynnwys gwirfoddolwyr.

Gwybodaeth a Sgiliau

- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig ac ar lafar rhagorol
- Sgiliau TG, Microsoft Office a rheoli Gwefan, yn ddelfrydol
- Sensitifrwydd diwylliannol wrth feithrin perthnasoedd ac ymgysylltu â phobl o gefndiroedd amrywiol
- Mae'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddymunol

Cymwysterau

- Naill ai rheoli cyfleusterau neu ddatblygu cymunedol
- Trwydded bersonol – sydd naill ai ganddynt eisioes neu barodrwydd i'w sicrhau

Priodoleddau personol

- Brwdfrydedd ynghylch Underhill a photensial y datblygiad
- Hunanreolaeth ac ysgogiad
- Llygad am fanylion gweithredol
- Bod yn barod i dorchi eich llewys a bwrw iddi
- Hyblyg a chyfeillgar

Telerau a Buddiannau Cyflogaeth

- Rhaid gweithio'r oriau mewn modd hyblyg, gan gynnwys ar benwythnosau a rhai nosweithiau, gyda 2 ddiwrnod i ffwrdd pob wythnos.
- Byddwch yn ddeiliad allwedd dynodedig ac mae'n bosibl y byddwch yn cael eich galw allan yn ystod oriau anghymdeithasol, i fynychu argyfwng.
- 28 diwrnod o wyliau, gan gynnwys gwyliau banc, y bydd angen gweithio ar rai ohonynt.
- Cyfraniad pensiwn o 3%



Er gwybodaeth, bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus gytuno i wriad y
Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd